**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/03889/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

13 Gorffenaf 2020

Annwyl Janet

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 8 Mehefin ynghylch y Ddeiseb P-05-974 - Sicrhau bod technoleg yr aelodau prosthetig a ddarperir yn y GIG yng Nghymru cystal â'r hyn a geir yng ngweddill y DU.

Yng Nghymru, darperir gwasanaethau'r GIG ym maes adsefydlu pobl ag aelod prosthetig a'r rhai sydd wedi colli aelod yn fewnol gan dair Canolfan Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALACs) arbenigol yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu'n ganolog gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) ar ran y saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. Mae gan WHSSC bolisi manyleb gwasanaeth ar gyfer adsefydlu pobl ag aelod prosthetig a'r rhai sydd wedi colli aelod CP 89 (gweler y ddolen isod).

http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/CP89%20Prosthetic%20and%20Amputee%20Rehab%20Services%20Service%20Spec.pdf

Mae prostheteg uwch, gan gynnwys prostheses pen-glin a reolir gan ficrobrosesydd, yn cael eu hariannu ar gyfer cyn-filwyr sy'n preswylio yng Nghymru ac sydd ag anafiadau y gellir eu priodoli i'w gwasanaeth fel milwyr yn unol â'r Polisi Gwasanaethau Arbenigol *War Veterans – Enhanced Prosthetic Provision* (gweler y ddolen isod).

http://www.whssc.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1119/CP49%20War%20Veteran%20Policy%20v1.0.pdf

Mae WHSSC yn cynnal proses flynyddol i bennu'r ddarpariaeth o wasanaethau prostheteg arbenigol yn seiliedig ar dystiolaeth o fudd, wedi'i hasesu yn erbyn meini prawf penodol. Ystyriodd WHSSC unwaith eto'r ddarpariaeth o brostheses pen-glin a reolir gan ficrobrosesydd ar gyfer sifiliaid fel rhan o'u hadolygiad blynyddol eleni. Ar hyn o bryd, ni ddarperir prostheses pen-glin a reolir gan ficrobrosesydd fel mater o drefn ar gyfer sifiliaid.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er hynny, mae swyddogion yn parhau i gyfathrebu'n rheolaidd â WHSSC i sicrhau bod tystiolaeth ar gael i lywio eu penderfyniadau comisiynu.

Os na ellir rheoli anghenion unigolyn o fewn yr ystod gytunedig o gyfarpar, a bod y tîm clinigol prosthetig a phobl sydd wedi colli aelod yn credu bod rhesymau eithriadol dros ddarparu cyfarpar y tu allan i'r ystod hon, hoffwn atgoffa'r pwyllgor bod modd cyflwyno Cais Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) i WHSSC. Mae’r cais hwn yn cael ei wneud gan glinigwyr ar ran eu claf o dan 'Bolisi Cymru gyfan ar gyfer Gwneud Penderfyniadau ar Geisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR)'.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services